

Tribiwnlys Anghenion  
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational  
Needs Tribunal for Wales

# Anghenion Addysgol Arbennig

## Cyflawni'n gorchymyn: Arweiniad Rhieni i beth sy'n digwydd nawr

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

### **Dewis iaith**

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

# Yr hyn y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol (ALI) ei wneud

Mae ein gorchymyn yn rhwymo'r ALI. Mae'r awdurdod o dan ddyletswydd i wneud yr hyn sydd wedi'i orchymyn.

## Pryd mae'n rhaid i'r ALI gydymffurfio â'n gorchymyn

Fel rheol, amser cyfyngedig fydd gan yr ALI i gyflawni'n gorchymyn. Mae'r amser yn rhedeg o'r diwrnod ar ôl inni anfon y gorchymyn allan.

Mae'r cyfnod sy'n cael ei ganiatáu yn amrywio, yn ôl y math o orchymyn. Dyma'r prif orchymynion:

### Os ydym yn gorchymyn i'r ALI:






Dechrau'r weithdrefn asesu neu'r weithdrefin ailasesu

Gwneud datganiad a'i gynnal

Newid datganiad

Parhau i gynnal datganiad

Newid enw'r ysgol sydd wedi'i henwi yn natganiad eich plentyn i ysgol sydd wedi'i henwi gennych chi



### Mae'n rhaid i'r SLI:

Ysgrifennu atoch o fewn 5 wythnos i ddweud y bydd yn gwneud yr asesiad

Gwneud datganiad o fewn 5 wythnos

Anfon datganiad arfaethedig atoch o fewn 5 wythnos

Parhau i gynnal y datganiad a dechrau ar unwaith

Pennu'r ysgol sydd wedi'i phennu gan y rhieni o fewn pythefnos

# Derbyn i'r ysgol

Os ydym yn gorchymyn bod yr ALI yn enwi ysgol arall sy'n cael ei chynnal gan yr ALI (prif-ffrwd neu arbennig) yn natganiad eich ysgol, mae'n rhaid i'r ysgol dderbyn y plentyn, er nad yw hyn yn drech nag unrhyw waharddiad o'r ysgol honno. Mae'r ddyletswydd i dderbyn y plentyn yn codi cyn gynted ag y caiff y datganiad ei wneud. Mae hyn yn golygu y gall fod oedi ar ôl i ni wneud y gorchymyn, nes bod yr ALI yn rhoi'r datganiad.

## Eithriadau i'r amserlenni hyn

Mae'r rheoliadau sy'n pennu'r terfynau amser yn caniatáu i'r awdurdod gael rhagor o amser o dan amgylchiadau penodedig, sydd wedi'u crynhoi isod:

- a) os oes amgylchiadau personol eithriadol yn effeithio arnoch chi neu'ch plentyn yn ystod y cyfnod amser perthnasol;
- b) os ydych chi neu'ch plentyn yn absennol o ardal yr awdurdod am gyfnod di-dor heb fod yn llai na phythefnos yn ystod y cyfnod amser perthnasol;
- c) os ydych yn dweud eich bod am gyflwyno sylwadau i'r awdurdod ynghylch cynnwys y datganiad ar ôl i'r cyfnod o 15 diwrnod ar gyfer y sylwadau hynny ddod i ben;
- d) os oes cyfarfod rhyngoch chi a'r AALI wedi'i gynnal a bod angen cynnal cyfarfod arall cyn bod modd penderfynu ar y materion perthnasol;
- e) os yw'r ALI wedi ysgrifennu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn iddo gydsynio i leoliad mewn ysgol berthnasol ac nad yw'r awdurdod wedi cael y cydsyniad o fewn 3 wythnos ar ôl y diwrnod.

Gobeithio bod yr arweiniad byr hwn yn fuddiol. Mae'r rheoliadau llawn ar gael yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012. Os gallwch gysylltu â'r rhyngwyd, gallwch weld y rheoliadau hyn yn: [Deddfwriaeth](#)

## Mae'n gwaith ni ar ben

Ar ôl inni roi ein penderfyniad, allwn ni ddim cymryd camau pellach. Does gennyn ni ddim pŵer i oruchwylio sut a pha bryd y mae'r gorchymyn yn cael ei gyflawni. Hyd yn oed os nad yw'r ALI yn gwneud yr hyn sydd wedi'i orchymyn o fewn y terfyn amser, allwn ni ddim cymryd camau pellach. Byddai angen ichi fynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth Cymru – gweler isod.

## Os nad yw'r ALI yn cydymffurfio

Os nad yw'r ALI yn cyflawni'n gorchymyn o fewn y terfyn amser, ac na allan nhw roi esboniad boddhaol pam, mae gennych hawl i gwyno i Llywodraeth Cymru. Dyma'r cyfeiriad:

### Llywodraeth Cymru

Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Adran Addysg a Sgiliau  
Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 6078

Mae Ombwdsmon Llywodraeth Leol yn gwrando cwynion am gamweinyddu gan All:

### Yr Ombwdsmon Lleol

Tŷ Derwen, Court Road, Pen y Bont Ar Ogwr CF31 1BN